

# Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 23 - Trothwy Ilofnodion deisebau

Rhagfyr 2021

Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), y Pwyllgor Busnes sy'n gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Senedd, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer ail wneud y Rheolau Sefydlog neu eu diwygio.

Mae'r adroddiad hwn yn argymhell un diwygiad i Reol Sefydlog 23.4(i).

Mae'r newid y cytunodd y Pwyllgor Busnes arno i'w weld yn Atodiad A, ac mae'r cynnig ar gyfer Rheolau Sefydlog newydd i'w weld yn Atodiad B.



## Cynnwys

<b>1. Cefndir .....</b>	<b>3</b>
<b>2. Ystyriaeth y Pwyllgor Busnes .....</b>	<b>4</b>
<b>3. Penderfyniad .....</b>	<b>4</b>
<b>Atodiad A: Rheol Sefydlog Arfaethedig 23.4(i), a nodiadau esboniadol.....</b>	<b>5</b>
<b>Atodiad B – Rheol Sefydlog 23.4, fel y'i diwygiwyd.....</b>	<b>6</b>

## 1. Cefndir

- 1.** Mae 2020 a 2021 wedi gweld twf sylweddol yn nifer y deisebau y'u cyfeiriwyd i'w hystyried gan y Pwyllgor Deisebau ('y Pwyllgor'). Mae hyn oherwydd cyfuniad o ddau ffactor: cyflwyno gwefan ddeisebau newydd ym mis Ebrill 2020, sydd wedi'i gwneud hi'n haws i ddeisebau gael eu creu, eu rhannu a'u llofnodi - yn enwedig o ddyfeisiau symudol; ac effaith y pandemig COVID-19 ar yr ystod o bynciau y mae deisebau wedi'u cyflwyno arnynt.
- 2.** Yn 2020, cyfeiriwyd 168 o ddeisebau at y Pwyllgor o gymharu â 70 yn 2019 a 62 yn 2018. Cyfeiriwyd 120 o ddeisebau yn ystod 2021 hyd yma.
- 3.** Nododd Pwyllgor Deisebau'r Bumed Senedd yn ei adroddiad gwaddol ei bod yn aneglur, o ystyried amgylchiadau unigryw 2020 a'r pandemig, a fyddai'r cynnydd yn y niferoedd yn cael ei gynnal yn y tymor hwy. Ar y sail hon, argymhellodd y dylai ei bwyllgor olynol ystyried ymhellach rinweddau cynyddu trothwy llofnodion deisebau o'i lefel bresennol o 50 o lofnodion unwaith y byddai mwy o wybodaeth ar gael, gan nodi "y gellir cyfiawnhau ffigur o 200 neu 250 o lofnodion...i sicrhau y gall y deisebau sy'n cael eu cyfeirio i graffu arnynt ddangos lefel sylweddol o gefnogaeth y cyhoedd."<sup>1</sup>
- 4.** Ysgrifennodd y Pwyllgor Deisebau yn y Chweched Senedd at y Pwyllgor Busnes ar 16 Tachwedd 2021 i ofyn am gynyddu'r trothwy llofnodion i 250 o lofnodion, gan effeithio ar bob deiseb newydd a gyflwynir o 1 Ionawr 2022 ymlaen. Dywedodd y Pwyllgor ei fod wedi ystyried ffigurau ar gyfer 10 mis cyntaf 2021, sy'n dangos bod y cynnydd yn nifer y deisebau a gyfeiriwyd at y Pwyllgor wedi'i gynnal o'i gymharu â 2017-2019, wrth ddod i'r argymhelliad hwn.
- 5.** Cred y Pwyllgor Deisebau y dylai'r broses o bwyllgor yn ystyried deiseb, a chael ymateb gan Lywodraeth Cymru, fynnu bod deisebau yn gallu dangos rhywfaint o gefnogaeth boblogaidd. Mae'n nodi bod y nifer uchel o ddeisebau ar hyn o bryd yn effeithio ar ei allu i ganolbwyntio ar graffu manwl ar ddeisebau y mae'n credu sydd â'r potensial i elwa o hyn.
- 6.** Mae'r Pwyllgor Deisebau wedi nodi ei fod wedi ystyried ystod o opsiynau ar gyfer y trothwy, gan gynnwys opsiynau is ac uwch. Mae dadansoddiad y Pwyllgor yn nodi, ar gyfartaledd, bod deisebau ar hyn o bryd yn casglu dros 300 o

---

<sup>1</sup> Y Pwyllgor Deisebau, [Adroddiad Gwaddol y Bumed Senedd](#), Mawrth 2021

## **Diwygio Rheolau Sefydlog:**

Rheol Sefydlog 23 - Trothwy llofnodion deisebau

---

lofnodion a bod 56 y cant o ddeisebau a gyflwynwyd dros y flwyddyn ddiwethaf wedi casglu dros 250 o lofnodion. Mae'n ystyried y byddai'r cynnig am 250 o lofnodion yn rhoi'r broses ddeisebau ar sylfaen gynaliadwy ar gyfer y Chweched Senedd gyfan. Mae rhagor o wybodaeth am yr opsiynau a ystyriwyd wedi'u cynnwys yn llythyr y pwyllgor at y Pwyllgor Busnes.

**7.** Mae'r Pwyllgor Deisebau yn bwriadu i'r newid ddod i rym ar gyfer pob deiseb newydd a gyflwynir o 1 Ionawr 2022 ymlaen.

## **2. Ystyriaeth y Pwyllgor Busnes**

**8.** Trafododd y Pwyllgor Busnes lythyr y Pwyllgor Deisebau yn gofyn am newid y trothwy yn ei gyfarfod ar 23 Tachwedd 2021 a chytunodd i gynnig un newid i Reolau Sefydlog i hwyluso hyn.

## **3. Penderfyniad**

**9.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes yn ffurfiol ar y newidiadau i Reol Sefydlog 23.4(j) ar 7 Rhagfyr 2021. Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r cynnig i newid y Rheol Sefydlog yn Atodiad A.

## Atodiad A: Rheol Sefydlog Arfaethedig 23.4(i), a nodiadau esboniadol

RHEOL SEFYDLOG 23 – Deisebau'r Cyhoedd		
RHEOL SEFYDLOG Derbyniadwyedd Deisebau		Cadw'r pennawd
<b>23.4</b>	<p>Nid yw deiseb yn dderbyniadwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) os yw'n cynnwys llai na 250 o lofnodion;</li> <li>(ii) os yw'n methu â chydymffurfio â Rheol Sefydlog 23.2 neu os nad yw yn y briod ffurf mewn ffordd arall;</li> <li>(iii) os yw'n cynnwys iaith sy'n peri tramgwydd;</li> <li>(iv) os yw'n gofyn i'r Senedd wneud unrhyw beth y mae'n eglur nad oes gan y Senedd bŵer i'w wneud; neu</li> <li>(v) os yw yr un fath, neu i raddau helaeth yr un fath, â deiseb a gaewyd lai na blwyddyn yn gynt.</li> </ul>	<p><b>Diwygio'r Rheol Sefydlog</b></p> <p>Mae'r diwygiad yn cynyddu'r trothwy llofnodion o 50 i 250 o lofnodion er mwyn i'r ddeiseb fod yn dderbyniadwy.</p>

## Atodiad B – Rheol Sefydlog 23.4, fel y'i diwygiwyd

Rheol Sefydlog 23 – Deisebau'r Cyhoedd

### **Derbyniadwyedd Deisebau**

23.4 Nid yw deiseb yn dderbyniadwy:

- (i) os yw'n cynnwys llai na 250 o lofnodion;
- (ii) os yw'n methu â chydymffurfio â Rheol Sefydlog 23.2 neu os nad yw yn y briod ffurf mewn ffordd arall;
- (iii) os yw'n cynnwys iaith sy'n peri tramgwydd;
- (iv) os yw'n gofyn i'r Senedd wneud unrhyw beth y mae'n eglur nad oes gan y Senedd bŵer i'w wneud; neu
- (v) os yw yr un fath, neu i raddau helaeth yr un fath, â deiseb a gaewyd lai na blwyddyn yn gynt.